Chi a'ch gweithiwr gofal cymdeithasol – beth i'w ddisgwyl

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn eich helpu i fyw eich bywyd yn y ffordd yr ydych chi eisiau.

I wneud yn siŵr fod gweithwyr yng Nghymru yn rhoi gofal a chymorth da i chi, mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru **Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol** (y Cod) ac rydyn ni'n cofrestru grwpiau o weithwyr i wneud yn siŵr eu bod yn addas i weithio.

Set o reolau, neu safonau, y disgwylir i weithwyr gofal proffesiynol weithio yn unol â nhw yw'r Cod, i helpu eich cadw'n ddiogel ac iach.

Beth mae'r Cod yn ei ddweud

I roi'r gofal a'r cymorth gorau i chi, rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:

- eich helpu i ddweud a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi
- parchu eich barn, hawliau a dymuniadau
- cynorthwyo eich llesiant a helpu i'ch cadw yn ddiogel
- bod yn onest, sicr a dibynadwy
- bod yn gymwys i wneud eu swydd yn gywir.





Pwy sy'n gorfod cadw at y Cod?

Dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol ddilyn y Cod, hyd yn oed os nad oes angen iddyn nhw gofrestru gyda ni.

Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda ni ddilyn y Cod i barhau i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae ein Cofrestr yn gwneud yn siŵr bod gweithwyr:

- yn addas i weithio
- o gymeriad da
- yn meddu ar y cymwysterau sydd eu hangen arnynt
- yn cytuno i gadw at y Cod.

Gallwch weld a yw gweithiwr wedi'i gofrestru yn www.scwonline.wales/cy/search-the-register/

Beth allwch chi ei wneud os nad yw eich gweithiwr gofal cymdeithasol yn gweithio yn unol â'r Cod?

1. Darllenwch y Cod i wybod beth yw'r safonau – gofalcymdeithasol.cymru/codau
2. Rhannwch eich pryderon â chyflogwr eich gweithiwr gofal a gofynnwch beth maen nhw am ei wneud
3. Os nad yw'r cyflogwr yn mynd i'r afael â'ch pryderon, gofynnwch am gopi o'u gweithdrefn gwyno i helpu i chi wybod beth i'w wneud nesaf
4. Os yw'r gweithiwr wedi'i gofrestru gyda ni ac nid yw siarad â'r cyflogwr wedi helpu, e-bostiwch ein tîm addasrwydd i ymarfer ar aiy@gofalcymdeithasol.cymru.

Os ydych chi'n pryderu am safon y gofal a ddarperir gan gwmni neu sefydliad, gallwch gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar 0300 7900 126, drwy e-bostio agc@llyw.cymru neu ewch i'w gwefan yn arolygiaethgofal.cymru

Ble gallaf i ddod o hyd i'r Cod?

Mae'r Cod ar gael ar-lein yn gofalcymdeithasol.cymru/codau neu sganiwch y cod QR.

